# ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL

## Cynnig i Ad-drefnu'r Ddarpariaeth Addysg Gatholig yn Sir y Fflint






- **Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney, a fydd yn gorffen gweithredu erbyn 31 Awst 2026**
- **Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint**
- **Byddai'r uno'n golygu y byddai'r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2026 ac ysgol unedig newydd, Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir 3-18, Cyfrwng Saesneg, gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ym Medi 2026, yn gweithredu ar y tri o safleoedd presennol**
- **Symud yr ysgol newydd i'r adeiladau newydd o 1 Medi 2029**

**Cyfnod Ymgynghori: Yn dechrau ar 03 Mehefin 2025 ac yn Cau am Hanner Nos ar 18 Gorffennaf 2025**

# A. CYFLWYNIAD

Yn Sir y Fflint mae chwe ysgol wedi eu categoreiddio fel ysgolion Catholig gwirfoddol a gynorthwyir:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David, yr Wyddgrug.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, y Fflint.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Santes Winefride, Treffynnon.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton.
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint

Yn dilyn canllawiau rheoleiddio’r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (“*y Cod*”), mae Esgobaeth Gatholig Wrecsam (“*yr Esgobaeth*”) a Chyngor Sir y Fflint (“*y Cyngor*”) yn dymuno ymgynghori â phawb sydd â diddordeb ynghylch cynnig i ad-drefnu’r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

Cynigir:

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney, a fydd yn gorffen gweithredu erbyn 31 Awst 2026.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
- Byddai’r uno’n golygu y byddai’r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2026 ac ysgol unedig newydd, Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir 3-18, Cyfrwng Saesneg, gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ym Medi 2026, yn gweithredu ar y tri o safleoedd presennol
- Symud yr ysgol newydd i’r adeiladau newydd o 1 Medi 2029.

At ddibenion y ddogfen hon, cyfeirir at yr ysgolion gan ddefnyddio eu henw unigryw byrrach.  Er enghraifft, cyfeirir at Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney, fel Sant Anthony.

Mae ysgolion Santes Winefride a’r Hybarch Edward Morgan y tu hwnt i gwmpas y cynnig ac ni effeithir arnynt yn uniongyrchol pe bai’n cael ei weithredu.

Mae'r ddogfen hon yn cefnogi’r ddogfen Ymgynghoriad Statudol y dylai ymgyngoreion ei hystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori.

https://siryfflint.gov.uk/YmgynghoriadAddysgGatholig

**Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 03 Mehefin 2025 ac yn cau am Hanner Nos ar 18 Gorffennaf 2025.**

Ffigyrau, ystadegau a deunydd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yw'r mwyaf cywir sydd ar gael adeg paratoi a chyhoeddi.

Mae Asesiadau o Effaith yn ddogfennau gwaith a fydd yn cael eu diweddaru yng ngoleuni gwybodaeth ac adborth o'r broses ymgynghori.

## B. PWRPAS YR ASESIAD

Mae Asesiad Effaith Cymunedol yn nodi cysylltiadau sydd gan grwpiau lleol gydag ysgolion sydd yn destun cynnig newid i drefniadau ysgolion.

Mae pob ysgol wedi darparu gwybodaeth am eu rôl yn y gymuned a'u cysylltiadau â chyfleusterau a busnesau cymunedol.


Bydd yr Asesiad Effaith Cymunedol yn ystyried goblygiadau negyddol a chadarnhaol y cynnig.

## C. PROFFILIAU ARDAL

Mae Saltney yn dref ac yn rhan o ward etholiadol yn Saltney Ferry, Sir y Fflint i'r dwyrain o bentref Brychdyn ac ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr nid nepell o ddinas Caer. Yng Nghyfrifiad 2021, cofnodwyd bod 5,140 o bobl yn preswylio yn ward Saltney Ferry.

Mae'r Wyddgrug yn Sir y Fflint mewn lleoliad canolog o fewn y sir ac yn cynnwys pedair ward etholiadol. Yng Nghyfrifiad 2021, cofnodwyd bod 10,148 o bobl yn preswylio yn y pedair ward yn yr Wyddgrug.

Mae'r Fflint yn dref arfordirol sydd wedi'i lleoli yng ngogledd y sir ac yn cynnwys tair ward etholiadol. Yng Nghyfrifiad 2021, cofnodwyd bod 13,736 o bobl yn preswylio yn y tair ward yn y Fflint.



Isod fe welir y pellteroedd cerdded (milltiroedd) rhwng pob un o'r chwe ysgol.

| | Sant Anthony | St David's | Y Santes Fair | Sant Richard Gwyn | Santes Gwenffrewi | Hybarch Ed. Morgan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sant Anthony** | | 9.42 | 10.36 | 10.32 | 15.30 | 6.11 |
| **Dewi Sant** | 9.42 | | 5.64 | 5.90 | 9.02 | 5.56 |
| **Y Santes Fair** | 10.36 | 5.64 | | 0.15 | 5.48 | 4.94 |
| **Sant Richard Gwyn** | 10.32 | 5.90 | 0.15 | | 5.60 | 4.91 |
| **Santes Gwenffrewi** | 15.30 | 9.02 | 5.48 | 5.60 | | 9.88 |
| **Hybarch Edward Morgan** | 6.11 | 5.56 | 4.94 | 4.91 | 9.88 | |

# D. YSGOL GYNRADD GATHOLIG WIRFODDOL A GYNORTHWYIR SANT ANTHONY YN SALTNEY

## D.1. Gwasanaethau a ddarperir gan yr Ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r ysgol yn darparu'r gwasanaethau canlynol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion:

| Gwasanaeth | Pryd mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal | Amlder | Dyddiad sefydlu | Cytundeb |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Brecwast | Yn ystod y tymor yn unig | 5 diwrnod yr wythnos | 15 + mlynedd | Dim - cael ei gynnal gan yr ysgol |
| Clwb ar ôl ysgol | Yn ystod y tymor yn unig | 4 diwrnod yr wythnos | Anhysbys | Dim - cael ei gynnal gan yr ysgol |
| Dosbarth dawnsio | Yn ystod y tymor yn unig | Yn ôl y gofyn | Anhysbys | Llafar |

## D.2. Cyfleusterau lleol a ddefnyddir gan yr ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfleusterau cymunedol canlynol yn yr ardal leol:

| Cyfleuster | Pryd mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal | Amlder | Dyddiad sefydlu | Cytundeb |
|---|---|---|---|---|
| Yr Eglwys | Yn ystod y tymor yn unig | Yn ôl y gofyn<br>Mwy na 6 gwaith y flwyddyn | Sawl blwyddyn | Llafar |

## D.3. Cyfleusterau lleol a ddefnyddir gan yr ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r grwpiau canlynol yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol:

| Grŵp Defnyddwyr | Pryd mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal | Amlder | Dyddiad sefydlu | Cytundeb |
|---|---|---|---|---|
| Dim | | | | |

## D.4. Cyfleusterau sydd ar gael ger yr ysgol

Mae’r cyfleusterau cymunedol canlynol ar gael ac wedi’u lleoli ger yr ysgol:

| Cyfleuster/Busnes | Prif iaith | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|
| Eglwys | Saesneg | Anhysbys |
| Tafarn x2 | Saesneg | Anhysbys |
| Caffi | Dwyieithog | Anhysbys |

## D.5. Gweithgareddau yn y gymuned

Mae’r gweithgareddau cymunedol canlynol ar gael ac wedi’u lleoli ger yr ysgol:

| Cyfleuster/Busnes | Prif iaith | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|
| Campfa x 3 | Dwyieithog | Anhysbys |
| Clwb Gymnasteg Saltney | Saesneg | Sawl blwyddyn - athletwyr Olympaidd wedi mynychu |
| Studio 13 Dance | Dwyieithog | Tua 10 mlynedd |

## D.6. Darpariaeth gofal plant

Mae’r darparwyr gofal plant canlynol ar gael yn yr ysgol, neu gerllaw:

| Darparwr Gofal Plant | Prif iaith | Lleoliad | Yn annibynnol o’r ysgol | Pryd mae gofal plant ar gael | Amlder | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Clwb Brecwast | Dwyieithog | Neuadd yr Ysgol | Na | Yn ystod y tymor | 5 diwrnod yr wythnos | 15 + mlynedd |
| Clwb ar ôl ysgol | Dwyieithog | Ar dir yr ysgol | Na | Yn ystod y tymor | 4 diwrnod yr wythnos | Anhysbys |
| Gwarchodwyr plant x3 | Dwyieithog | Gartref | Ydi | Drwy gydol y flwyddyn | Gydol y flwyddyn 8am – 6pm | Anhysbys |

# E. YSGOL GYNRADD GATHOLIG WIRFODDOL A GYNORTHWYIR DEWI SANT YN YR WYDDGRUG

## E.1. Gwasanaethau a ddarperir gan yr Ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r ysgol yn darparu'r gwasanaethau canlynol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion:

| Gwasanaeth | Pryd mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal | Amlder | Dyddiad sefydlu | Cytundeb |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Brecwast | Yn ystod y tymor yn unig | 5 sesiwn wythnosol | 30 mlynedd yn ôl | Wedi'i gynnal gan yr ysgol |
| Clwb Ar Ôl Ysgol | Yn ystod y tymor yn unig | 5 sesiwn wythnosol | 30 mlynedd yn ôl | Wedi'i gynnal gan yr ysgol |
| Dechrau'n Deg | Yn ystod y tymor yn unig | 5 sesiwn wythnosol | 2021 | Cylch Chwarae a Meithrin a Mwy Dewi Sant Cytundeb Llogi Parhaus |
| Cyfle Cynnar | Yn ystod y tymor yn unig | 5 sesiwn wythnosol | Mewn rhyw ffurf 30 mlynedd yn ôl | Cylch Chwarae a Meithrinfa a Mwy Dewi Sant Cytundeb Llogi Parhaus |
| Meithrinfa a Mwy | Yn ystod y tymor yn unig | 5 sesiwn wythnosol | 30 mlynedd yn ôl | Cylch Chwarae a Meithrinfa a Mwy Dewi Sant Cytundeb Llogi Parhaus |

| Gwasanaeth | Pryd mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal | Amlder | Dyddiad sefydlu | Cytundeb |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Gwyliau | Yn ystod y tymor, Gwyliau Pasg a'r Haf | 5 sesiwn wythnosol | 2021 | Cylch Chwarae a Meithrinfa a Mwy Dewi Sant Cytundeb Llogi Parhaus |
| Mini Vinnies | Yn ystod y tymor yn unig | 1 sesiwn wythnosol | Tua 20 mlynedd yn ôl | Cael ei gynnal gan SVP |
| Paratoi ar gyfer Cymun Sanctaidd cyntaf | Tymor y gwanwyn/ yr haf | 1 sesiwn wythnosol | Bob amser | Yn cael ei gynnal gan y Plwyf |
| Clwb Gwyddoniaeth | Tymor yr hydref | 1 sesiwn wythnosol | 2021 | Mad Science |
| Gwersi Cerddoriaeth (gitâr a drymiau) | Yn ystod y tymor yn unig | Prynhawniau Gwener Hyd at 10 sesiwn wythnosol | Tua 10 mlynedd yn ôl | Mr Couch - Cytundeb Llogi yn ôl y gofyn |
| Gwersi cerddoriaeth Gwasanaeth Cerdd Sir y Fflint | Yn ystod y tymor yn unig | Yn amrywio | Anhysbys | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |

## E.2. Cyfleusterau lleol a ddefnyddir gan yr ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfleusterau cymunedol canlynol yn yr ardal leol:

| Cyfleuster | Pryd mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal | Amlder | Dyddiad sefydlu | Cytundeb |
|---|---|---|---|---|
| Llyfrgell | Yn ystod y tymor | Yn ôl y gofyn | Anhysbys | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |
| Ymweliad i Bryn y Beili | Yn ystod y tymor | Yn ôl y gofyn | Anhysbys | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |
| Gweithgareddau Cyngor Tref Yr Wyddgrug e.e. rasys crempogau, troi'r goleuadau Nadolig ymlaen ac ati | Yn ystod y tymor | Unwaith y mis | Anhysbys | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |
| Neuadd yr Eglwys | Yn ystod y tymor | 4 sesiwn wythnosol | 50 mlynedd yn ôl? | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |
| Banc Bwyd | Yn ystod y tymor | | Anhysbys | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |
| Eglwys Gatholig Dewi Sant<br>Mae plwyf Dewi Sant yn ymestyn bron i 80 metr sgwâr (200 km sgŵar). | Yn ystod y tymor a thu allan i'r tymor | O leiaf bob mis | *Rhwng 1862 a 1863 fe adeiladwyd 'Capel Ysgol, gyda thŷ Offeiriad ynghlwm' yn Yr Wyddgrug. Dyma oedd yr 'hen' Dewi* | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |

| **Cyfleuster** | **Pryd mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal** | **Amlder** | **Dyddiad sefydlu** | **Cytundeb** |
|---|---|---|---|---|
| Mae'n ymestyn o dde Llaneurgain i Leeswood, ac o Chambers Lane, Mynydd Isa i'r gorllewin i Lanferres a Chilcain. | | | *Sant, a adeiladwyd gan gyndeidiau rhai o'n plwyfolion presennol. Mae'r safle bellach o dan y coed i'r chwith o eglwys heddiw.*<br>*Fe adeiladwyd Dewi Sant presennol yn 1966* | |
| Archfarchnadoedd lleol | Yn ystod y tymor | Yn ôl y gofyn | Anhysbys | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |

## E.3. Cyfleusterau ysgol a ddefnyddir gan grwpiau lleol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r grwpiau canlynol yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol:

| Grŵp Defnyddwyr | Pryd mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal | Amlder | Dyddiad sefydlu | Cytundeb |
|---|---|---|---|---|
| ACL (Afghan Ladies Group) – Mae'r bartneriaeth hon wrthi'n cael ei datblygu | Yn ystod y tymor | 1 sesiwn wythnosol | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |

| Grŵp Defnyddwyr | Pryd mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal | Amlder | Dyddiad sefydlu | Cytundeb |
|---|---|---|---|---|
| ACL (grwpiau a gweithgareddau amrywiol) – Mae'r bartneriaeth hon wrthi'n cael ei datblygu | Yn ystod y tymor | 1 sesiwn wythnosol | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |
| Cylch chwarae Dewi Sant | Yn ystod y tymor | 5 sesiwn wythnosol | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Cytundeb Llogi Parhaus |
| Clwb ar ôl ysgol Dewi Sant | Yn ystod y tymor | 5 sesiwn wythnosol | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Cytundeb Llogi Parhaus |
| Dechrau'n Deg | Yn ystod y tymor | 5 sesiwn wythnosol | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Cytundeb Llogi Parhaus |
| Cyfle Cynnar | Yn ystod y tymor | 5 sesiwn wythnosol | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Cytundeb Llogi Parhaus |
| Clwb Gwyliau | Tu allan i'r tymor | Gwyliau Pasg a'r Haf | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Cytundeb Llogi Parhaus |

## E.4. Cyfleusterau sydd ar gael ger yr ysgol

Mae'r cyfleusterau cymunedol canlynol ar gael ac wedi'u lleoli ger yr ysgol:

| Cyfleuster/Busnes | Prif iaith | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|
| Eglwys Gatholig Dewi Sant | Saesneg | 1960au |
| Neuadd yr Eglwys | Saesneg | 1960au |
| Banc Bwyd | Saesneg | Anhysbys |

## E.5. Gweithgareddau yn y gymuned

Mae'r gweithgareddau cymunedol canlynol ar gael ac wedi'u lleoli ger yr ysgol:

| Cyfleuster/Busnes | Prif iaith | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|
| The Legion of Mary | Saesneg | Dros 50 mlynedd yn ôl |
| Cymdeithas Saint Vincent de Paul | Saesneg | Dros 50 mlynedd yn ôl |
| Gweithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal yn Neuadd yr Eglwys | Saesneg | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |

| Cyfleuster/Busnes | Prif iaith | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|
| Cafod | Saesneg | Dros 30 mlynedd yn ôl |
| Eglwys Gatholig Dewi Sant | Saesneg | 150 mlynedd yn ôl? Adeilad presennol 1960au |

## E.6. Darpariaeth gofal plant

Mae'r darparwyr gofal plant canlynol ar gael yn yr ysgol, neu gerllaw:

| Darparwr Gofal Plant | Prif iaith | Lleoliad | Yn annibynnol o'r ysgol | Pryd mae gofal plant ar gael | Amlder | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Clwb brecwast Dewi Sant | Saesneg | Neuadd yr Ysgol | Na | Yn ystod y tymor | Bob bore 7.30am – 8.50am | 30+ mlynedd yn ôl |
| Clwb ar ôl ysgol Dewi Sant | Saesneg | Neuadd yr Ysgol /Adeilad y Feithrinfa | Na | Yn ystod y tymor | Bob prynhawn 3.10pm – 5.45pm | 30+ mlynedd yn ôl |
| Cylch Chwarae a Meithrinfa a Mwy Dewi Sant | Saesneg | Neuadd yr Ysgol /Adeilad y Feithrinfa | Ydi | Yn ystod y tymor | Bob dydd 9.00am – 3.00pm | 30+ mlynedd yn ôl |

| Darparwr Gofal Plant | Prif iaith | Lleoliad | Yn annibynnol o'r ysgol | Pryd mae gofal plant ar gael | Amlder | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Clwb gwyliau Dewi Sant | Saesneg | Adeilad y feithrinfa | Ydi | Tu allan i'r tymor | Gwyliau Pasg a'r Haf 8.30am – 5.30pm (Mae mwy o ddarpariaeth yn ystod pob gwyliau ysgol yn cael ei lunio) | 2021 |
| Dechrau'n Deg Dewi Sant | Saesneg | Adeilad y feithrinfa | Ydi | Yn ystod y tymor | Bob dydd 9.00am – 3.00pm | 2021 |
| Cyfle Cynnar Dewi Sant | Saesneg | Adeilad y feithrinfa | Ydi | Yn ystod y tymor | Bob dydd 9.00am – 5.45pm | 30 + mlynedd yn ôl (mewn rhyw ffurf) |

# F. YSGOL GYNRADD GATHOLIG WIRFODDOL A GYNORTHWYIR Y SANTES FAIR YN Y FFLINT

## F.1. Gwasanaethau a ddarperir gan yr Ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae’r ysgol yn darparu’r gwasanaethau canlynol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion:

| Gwasanaeth | Pryd mae’r gweithgaredd yn cael ei gynnal | Amlder | Dyddiad sefydlu | Cytundeb |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Brecwast | Yn ystod y tymor yn unig | 5 sesiwn wythnosol | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Dim - cael ei gynnal gan yr ysgol |
| Clwb Ar Ôl Ysgol | Yn ystod y tymor yn unig | 5 sesiwn wythnosol | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Prydles |
| Clwb pêl-droed | Yn ystod y tymor yn unig | 1 sesiwn wythnosol | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Dim - cael ei gynnal gan yr ysgol |
| Clwb pêl-rwyd | Yn ystod y tymor yn unig | 1 sesiwn wythnosol am un tymor | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Dim - cael ei gynnal gan yr ysgol |
| Gwersyll Aml-chwaraeon | Yn ystod y tymor yn unig | 1 sesiwn wythnosol am ddau dymor | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Dim - cael ei gynnal gan yr ysgol |
| Clwb Celfyddydau Mynegiannol | Yn ystod y tymor yn unig | 1 sesiwn wythnosol | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Dim - cael ei gynnal gan yr ysgol |
| Clwb Gemau | Yn ystod y tymor yn unig | 1 sesiwn wythnosol am un tymor | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Dim - cael ei gynnal gan yr ysgol |

| Gwasanaeth | Pryd mae’r gweithgaredd yn cael ei gynnal | Amlder | Dyddiad sefydlu | Cytundeb |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Garddio | Yn ystod y tymor yn unig | 1 sesiwn wythnosol am ddau dymor | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Dim - cael ei gynnal gan yr ysgol |

## F.2. Cyfleusterau lleol a ddefnyddir gan yr ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae’r ysgol yn defnyddio’r cyfleusterau cymunedol canlynol yn yr ardal leol:

| Cyfleuster | Pryd mae’r gweithgaredd yn cael ei gynnal | Amlder | Dyddiad sefydlu | Cytundeb |
|---|---|---|---|---|
| Eglwys y Beichiogiad Dihalog | Yn ystod y tymor yn unig | 2 ymweliad y flwyddyn | 1920au | Llafar |
| Pafiliwn Jade Jones | Yn ystod y tymor yn unig | 1 sesiwn wythnosol | Anhysbys | Gwersi nofio sy’n cael eu cynnal gan Aura/Gwella |
| Llyfrgell y Fflint | Yn ystod y tymor yn unig | 6 sesiwn y flwyddyn | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Ymweliadau gyda staff y llyfrgell |
| Clwb Bowls Coleshill | Yn ystod y tymor yn unig | 2 sesiwn y flwyddyn | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Ymweliadau gydag aelodau’r clwb |

## F.3. Cyfleusterau ysgol a ddefnyddir gan grwpiau lleol

Mewn blwyddyn arferol, mae’r grwpiau canlynol yn defnyddio cyfleusterau’r ysgol:

| Grŵp Defnyddwyr | Pryd mae’r gweithgaredd yn cael ei gynnal | Amlder | Dyddiad sefydlu | Cytundeb |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Bêl-droed Nev Powell | Tu allan i’r tymor | 5 diwrnod yr wythnos | 2010 | Llafar |

## F.4. Cyfleusterau sydd ar gael ger yr ysgol

Mae’r cyfleusterau cymunedol canlynol ar gael ac wedi’u lleoli ger yr ysgol:

| Cyfleuster/Busnes | Prif iaith | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|
| Eglwys y Beichiogiad Dihalog | Saesneg | 1860au |
| Parc Albert | Saesneg | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |
| Pyllau Pysgod ‘The Pandy’ | Saesneg | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |
| Pafiliwn Jade Jones | Saesneg | Anhysbys |

| Cyfleuster/Busnes | Prif iaith | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|
| Stadiwm Pêl-droed Cae y Castell (Stadiwm Essity) | Saesneg | Anhysbys |
| Tafarn ‘The Mill Tavern’ | Saesneg | Anhysbys |
| Tafarn ‘The Welsh Harp’ | Saesneg | Anhysbys |
| Llyfrgell y Fflint | Saesneg | Anhysbys |

## F.5. Gweithgareddau yn y gymuned

Mae’r gweithgareddau cymunedol canlynol ar gael ac wedi’u lleoli ger yr ysgol:

| Cyfleuster/Busnes | Prif iaith | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|
| Dosbarthiadau ffitrwydd, pilates, ioga, campfa ym Mhafiliwn Jade Jones | Saesneg | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |
| Corau yn yr eglwys | Saesneg | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |
| Pilates | Saesneg | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |

| Cyfleuster/Busnes | Prif iaith | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|
| Timau chwaraeon - pêl-droed, rygbi yn Stadiwm Essity | Saesneg | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |

## F.6. Darpariaeth gofal plant

Mae'r darparwyr gofal plant canlynol ar gael yn yr ysgol, neu gerllaw:

| Darparwr Gofal Plant | Prif iaith | Lleoliad | Yn annibynnol o'r ysgol | Pryd mae gofal plant ar gael | Amlder | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Clwb ar ôl ysgol Ysgol Gwynedd | Saesneg | Ardal | Ydi | Yn ystod y tymor | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Anhysbys |
| Clwb ar ôl ysgol Ysgol Cornist Park | Saesneg | Ardal leol | Ydi | Yn ystod y tymor | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Anhysbys |
| Clwb ar ôl ysgol Ysgol Croes Atti | Cymraeg | Ardal leol | Ydi | Yn ystod y tymor | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Anhysbys |
| Clwb Hwyl yng Nghlwb ar ôl ysgol y Santes Fair | Saesneg | Ysgol | Ydi | Yn ystod y tymor yn unig | 3pm – 6pm | 2022 |

| Darparwr Gofal Plant | Prif iaith | Lleoliad | Yn annibynnol o'r ysgol | Pryd mae gofal plant ar gael | Amlder | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Meithrinfa Teddy Bear Towers | Saesneg | Ardal leol | Ydi | Drwy gydol y flwyddyn | Gydol y flwyddyn 8am – 6pm | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |
| Meithrinfa Ddydd The Oaks | Saesneg | Ardal leol | Ydi | Drwy gydol y flwyddyn | Gydol y flwyddyn 8am – 6pm | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |

# G. YSGOL UWCHRADD GATHOLIG WIRFODDOL A GYNORTHWYIR Y SANT RICHARD GWYN

## G.1. Gwasanaethau a ddarperir gan yr Ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae’r ysgol yn darparu’r gwasanaethau canlynol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion:

| Gwasanaeth | Pryd mae’r gweithgaredd yn cael ei gynnal | Amlder | Dyddiad sefydlu | Cytundeb |
|---|---|---|---|---|
| Cerddoriaeth a drama | Yn ystod y tymor yn unig | Bob wythnos | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Yn cael ei gynnal gan yr ysgol |
| Clybiau chwaraeon | Yn ystod y tymor yn unig | 3 sesiwn wythnosol | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Yn cael ei gynnal gan yr ysgol |
| Dosbarthiadau adolygu | Yn ystod y tymor yn unig | Wythnosol ar gyfer pob pwnc | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol | Yn cael ei gynnal gan yr ysgol |

## G.2. Cyfleusterau lleol a ddefnyddir gan yr ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfleusterau cymunedol canlynol yn yr ardal leol:

| Cyfleuster | Pryd mae'r weithgaredd yn cael ei gynnal | Amlder | Dyddiad sefydlu | Cytundeb |
|---|---|---|---|---|
| Pafiliwn Jade Jones | Yn ystod y tymor | Yn ôl y gofyn | Anhysbys | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |
| Castell y Fflint | Yn ystod y tymor | Yn ôl y gofyn | Anhysbys | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |
| Eglwys y Santes Fair | Yn ystod y tymor | Yn ôl y gofyn | Medi 21 | Anhysbys / ddim ar gael / amherthnasol |

## G.3. Cyfleusterau ysgol a ddefnyddir gan grwpiau lleol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r grwpiau canlynol yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol:

| Grŵp Defnyddwyr | Pryd mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal | Amlder | Dyddiad sefydlu | Cytundeb |
|---|---|---|---|---|
| Dim | | | | |

Nid yw'r cyfleusterau yn addas at y diben ac mae cyfleusterau gwell ar gael yn lleol.

## G.4. Cyfleusterau sydd ar gael ger yr ysgol

Mae'r cyfleusterau cymunedol canlynol ar gael ac wedi'u lleoli ger yr ysgol:

| Cyfleuster/Busnes | Prif iaith | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|
| Tafarn The Harp | Saesneg | Anhysbys |
| Caffis a siopau amrywiol ar y stryd fawr ac yn y parc manwerthu | Saesneg | Anhysbys |
| Pafiliwn Jade Jones | Saesneg | Anhysbys |
| Eglwys y Beichiogiad Dihalog, y Fflint/ Eglwys y Santes Fair, y Fflint | Saesneg | Anhysbys |

## G.5. Gweithgareddau yn y gymuned

Mae'r gweithgareddau cymunedol canlynol ar gael ac wedi'u lleoli ger yr ysgol:

| Cyfleuster/Busnes | Prif iaith | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|
| Bowlio a gweithgareddau eraill - Pafiliwn Jade Jones | Saesneg | Tua 2015? |
| Côr (Dynion a Merched) | Saesneg | Anhysbys |
| Parc Sglefrio | Saesneg | Anhysbys |

## G.6. Darpariaeth gofal plant

Mae'r darparwyr gofal plant canlynol ar gael yn yr ysgol, neu gerllaw:

| Darparwr Gofal Plant | Prif iaith | Lleoliad | Yn annibynnol o'r ysgol | Pryd mae gofal plant ar gael | Amlder | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Teddy Bear Towers | Saesneg | Y Fflint | Ydi | Drwy gydol y flwyddyn | Drwy gydol y flwyddyn | Anhysbys |
| Meithrinfa Treehouse Play | Saesneg | Y Fflint | Ydi | Drwy gydol y flwyddyn | Drwy gydol y flwyddyn | Anhysbys |

## H. EFFEITHIAU POSIBL

Mae effaith yr opsiynau wedi cael eu hystyried yng nghyd-destun nifer o ffactorau, fel y gwelir yn y tabl isod. Os rhagwelir y bydd yr opsiwn o fudd i gymuned neu grŵp o fudd-ddeiliaid caiff ei nodi fel effaith cadarnhaol, ond os oes posibl i'r opsiwn gael effaith andwyol ar ardal neu barti â chysylltiad, caiff ei nodi fel effaith negyddol. Mae opsiynau nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar ffactor wedi'u nodi fel rhai niwtral.

Mae mesurau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol a ragwelir wedi'u cynnwys yn y tabl hefyd.

| Ffactorau a ystyriwyd | Effaith Ddisgwyliedig y Cynnig | Sylwadau a Mesurau Posibl i Leihau Effeithiau Negyddol |
|---|---|---|
| Mynediad at ddarpariaeth o'r un dynodiad Ffydd | Niwtral a Negyddol | Disgwylir effaith niwtral yn ardal y Fflint gan y bydd addysg sy'n seiliedig ar y ffydd Gatholig yn parhau yn yr ardal.<br><br>Disgwylir effaith negyddol yn ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug yn sgil cau Ysgol Sant Anthony a (safle) Dewi Sant.<br><br>Nid yw addysg sy'n seiliedig ar ffydd ar gael ym mhob tref a phentref yn Sir y Fflint. Serch hynny, yn ychwanegol at ei rwymedigaethau statudol, mae'r Cyngor hefyd yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion o oedran gorfodol i'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir agosaf, lle mae cofrestru ar gyfer yr ysgol ar sail enwad, yn amodol ar y meini prawf pellter. |

| Ffactorau a ystyriwyd | Effaith Ddisgwyliedig y Cynnig | Sylwadau a Mesurau Posibl i Leihau Effeithiau Negyddol |
|---|---|---|
| Mynediad at ddarpariaeth o'r un cyfrwng iaith | Niwtral | Disgwylir effaith niwtral gan fod addysg yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng Saesneg ym mhob ysgol Gatholig yn Sir y Fflint. Ni fyddai hyn yn newid ar ôl gweithredu a bydd hyn yn parhau i rieni/gwarcheidwaid sydd eisiau addysg sy'n seiliedig ar y ffydd Gatholig i'w plant yn Saesneg. |
| Effaith ar y gymuned | Cadarnhaol a Negyddol | Disgwylir effaith cadarnhaol yn y Fflint gan y bydd cyfleusterau ysgol modern ar gael i'r gymuned eu defnyddio.<br><br>Disgwylir effaith negyddol yn ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug yn sgil cau Ysgol Sant Anthony a (safle) Dewi Sant.<br><br>Yn Saltney, mae'r ysgol yn cynnal clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol, ac ni fydd y rhain ar gael.<br><br>Yn yr Wyddgrug, fel yn Saltney, mae'r ysgol yn cynnal clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol, ac ni fydd y rhain ar gael. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn cynnal clybiau gwyliau a darpariaeth Cyfle Cynnar. Mae disgyblion Dewi Sant yn rhyngweithio gyda'r gymuned leol drwy gyfrwng gweithgareddau Cyngor lleol, ymweld â'r llyfrgell a busnesau lleol.<br><br>Fe gydnabyddir bod yr effeithiau negyddol a ragwelir yn Saltney a'r Wyddgrug yn fwy sylweddol na'r effeithiau cadarnhaol a ddisgwylir yn y Fflint. Serch hynny, nid yw cael |

| Ffactorau a ystyriwyd | Effaith Ddisgwyliedig y Cynnig | Sylwadau a Mesurau Posibl i Leihau Effeithiau Negyddol |
|---|---|---|
| | | gwared ar adeiladau'r ysgol sydd yn cynnal gweithgareddau yn golygu na fydd y gweithgareddau yma ar gael yn rhywle arall.<br><br>Mae darpariaeth Gofal Estynedig megis clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol yn debygol o fod ar gael yn y ddarpariaeth arall y bydd rhieni/gwarcheidwaid yn ei ddewis.<br><br>Nid oes unrhyw weithgareddau sy'n cael eu cynnal gan y ddwy ysgol angen cyfleusterau arbenigol ac felly fe ellir eu cynnal mewn adeiladau cymunedol eraill.<br><br>Yr hyn na ellir ei ddisodli yw disgyblion yn rhyngweithio gyda'r gymuned leol y tu allan i dir yr ysgol. |
| Effaith ar Fusnesau Lleol | Niwtral a Negyddol | Disgwylir effaith niwtral yn ardal y Fflint gan y byddai'r nifer o bobl sy'n mynd i'r ysgol arfaethedig yn parhau ar y lefelau presennol.<br><br>Disgwylir effaith negyddol yn ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug yn sgil cau Ysgol Sant Anthony a (safle) Dewi Sant.<br><br>Bydd cau ysgol yn lleihau'r nifer o bobl sy'n dod mewn i'r ardal benodol honno. |
| Effaith ar ysgolion cyfagos | Niwtral a Chadarnhaol | Disgwylir effaith niwtral yn ardal y Fflint gan mai dim ond cynnydd bychan a ddisgwylir yn nifer y disgyblion. |

| Ffactorau a ystyriwyd | Effaith Ddisgwyliedig y Cynnig | Sylwadau a Mesurau Posibl i Leihau Effeithiau Negyddol |
|---|---|---|
| | | Disgwylir effaith niwtral yn ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug hefyd gan y tybir bod disgyblion yn mynychu Ysgol Sant Anthony oherwydd yr addysg Gatholig sy'n cael ei ddarparu.  Yr estyniad i'r dybiaeth hon yw y bydd disgyblion yn trosglwyddo i'w ysgolion Catholig agosaf sydd ar gael sydd y tu allan i ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug.<br><br>Disgwylir effaith cadarnhaol yn Shotton gan mai'r ysgol gynradd Gatholig agosaf i fwyafrif y disgyblion presennol sy'n mynychu Ysgol Sant Anthony yw Ysgol Hybarch Edward Morgan.  Byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Hybarch Edward Morgan yn helpu i leihau ei lefydd gwag presennol. |
| Effaith ar ddisgyblion | Cadarnhaol a Negyddol | Disgwylir effaith cadarnhaol ar ddisgyblion sydd yn mynd ymlaen i fynychu ysgol y Fflint gan y byddant yn elwa o gyfleusterau newydd ac amgylchedd dysgu modern.<br><br>Disgwylir effeithiau cadarnhaol a negyddol ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Sant Anthony a (safle) Dewi Sant i ddarpariaeth Gatholig arall.<br><br>Effeithiau cadarnhaol i'r disgyblion yma fyddai dosbarthiadau mwy o faint i alluogi mwy o gyfeillgarwch gael eu ffurfio a chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp, yn rhan o'r cwricwlwm a'r rhai sy'n cael eu darparu fel gweithgareddau allgyrsiol. |

| Ffactorau a ystyriwyd | Effaith Ddisgwyliedig y Cynnig | Sylwadau a Mesurau Posibl i Leihau Effeithiau Negyddol |
|---|---|---|
| | | Effeithiau negyddol i ddisgyblion presennol Sant Anthony a Dewi Sant fyddai gorfod trosglwyddo i leoliad newydd ac amseroedd teithio hirach i'w ysgol gynradd Gatholig agosaf.<br><br>Bydd pob disgybl yn cael cynnig cefnogaeth drosglwyddo a bugeiliol os ydi'r cynnig yn effeithio arnyn nhw.<br><br>Nid oes modd osgoi amseroedd teithio hirach gan fod darpariaeth addysg Gatholig wedi'i wasgaru ar draws y Sir. |
| Effaith ar Rieni/Gofalwyr a Theuluoedd | Niwtral a Negyddol | Disgwylir effaith niwtral i rieni/gofalwyr disgyblion sy'n mynychu ysgolion Fflint ar hyn o bryd gan y bydd darpariaeth debyg yn cael ei sefydlu ar safleoedd cyfagos.<br><br>Disgwylir effaith negyddol i rieni/gofalwyr disgyblion sy'n mynychu Ysgol Sant Anthony a Dewi Sant ar hyn o bryd. Byddai cael gwared ar ysgol o un o'r cymunedau yma yn newid yr amgylchedd cymdeithasol a'r modd y mae grwpiau presennol o gyfeillion yn rhyngweithio. |
| Effaith ar Drefniadau Teithio Dysgwyr | Niwtral a Negyddol | Wedi ei gynnwys yn rhannol tra'n nodi'r effaith disgwyliedig ar ddisgyblion. |

| Ffactorau a ystyriwyd | Effaith Ddisgwyliedig y Cynnig | Sylwadau a Mesurau Posibl i Leihau Effeithiau Negyddol |
|---|---|---|
| | | Disgwylir effaith niwtral ar ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion Fflint ar hyn o bryd gan y bydd y pellter maen nhw'n ei deithio i'r ysgol yn parhau'r un fath pan fydd yr ysgol newydd yn agor.<br><br>Disgwylir effaith negyddol ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Sant Anthony a (safle) Dewi Sant i ddarpariaeth Gatholig arall. Nid oes modd osgoi amseroedd teithio hirach gan fod darpariaeth addysg Gatholig wedi'i wasgaru ar draws y Sir.<br><br>Fe allai plant sy'n trosglwyddo i'w hysgol Gatholig agosaf fod â hawl i gefnogaeth o dan Polisi Cludiant y Cyngor https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Transport-Application.aspx<br><br>Mae Asesiad o Effaith ar Gludiant wedi cael ei lunio i edrych ar effaith posibl y byddai gweithredu'r cynnig yn ei gael ar drefniadau cludiant presennol. |
| Effaith ar ddemograffeg y gymuned | Niwtral | Er y gallai colli ysgol effeithio'n negyddol ar bobl sy'n dymuno aros mewn ardal neu adleoli i ardal, mae Saltney a'r Wyddgrug yn drefi sefydlog sydd â nifer o gyfleusterau, yn cynnwys ysgolion, a fyddai'n dal i ddenu pobl i'r ardaloedd. |

# I. CASGLIADAU

Disgwylir effeithiau cadarnhaol, niwtral a negyddol o weithredu'r cynnig.

Disgwylir y bydd rhywfaint o effeithiau niwtral ar y tair cymuned.

Derbynnir y bydd y mwyafrif o effeithiau cadarnhaol yn ymwneud â'r Fflint.

Bydd adeiladau sero net newydd yn gwella profiad dysgu y disgyblion hynny sy'n dewis mynychu'r ysgol 3-18 oed arfaethedig.

Fe gydnabyddir bod mwyafrif yr effeithiau negyddol yn ymwneud â Saltney a'r Wyddgrug.

Byddai cau Ysgol Sant Anthony a (safle) Dewi Sant yn lleihau nifer yr adeiladau yr oedd gan y gymuned fynediad iddynt yn eu hardaloedd. Serch hynny, disgwylir y gallai mwyafrif y gweithgareddau, os nad pob un sy'n defnyddio'r ysgol ar hyn o bryd, gael eu hadleoli i gyfleusterau eraill yn y cymunedau.

Bydd cau unrhyw Ysgol Gatholig yn effeithio ar ddisgyblion a staff sy'n dewis adleoli i'r Ysgol Gatholig agosaf nesaf. Gan fod ysgolion sy'n seiliedig ar ffydd wedi'u gwasgaru ar draws y Sir, mae cael gwared ar ysgol Gatholig yn golygu pellteroedd ac amseroedd teithio hirach i ddisgyblion sy'n trosglwyddo i'w hysgol Gatholig agosaf nesaf.